



Ordinhad 18

Y Senedd: Ethol Cynrychiolwyr Anacademaidd

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2020

ORDINHAD 18

Y SENEDD: ETHOL CYNRYCHIOLWYR ANACADEMAIDD

1. Aelodau o'r Staff Anacademaidd

Etholir dau aelod ac dirprwywr i'r Senedd gan ac o blith aelodau Staff heblaw y Staff Academaidd (y 'staff anacademaidd'), yn unol â'r weithdrefn ganlynol:

1. Trefnir yr etholiadau ar gyfer aelodau o'r staff anacademaidd i wasanaethu ar y Senedd gan Ysgrifennydd y Brifysgol.
2. Anfonir rhybudd o etholiad at holl aelodau'r staff nad ydynt yn aelodau o'r Staff Academaidd yn ôl diffiniad Ystatud 1, ac y mae eu perthynas sylweddol gyda'r Brifysgol fel gweithwyr (a elwir o hyn ymlaen yn "staff anacademaidd"), fydd yn cynnwys gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau o fewn cyfnod rhesymol.
3. Bydd aelodau'r staff anacademaidd sydd wedi cael eu cyflogi'n barhaol gan y Brifysgol am ddim llai na deuddeg mis ar y diwrnod pan anfonir y rhybudd o etholiad ar dir i'w henwebu i'w hethol. I fod yn ddilys, rhaid i bob enwebiad gael ei gynnig a'i eilio yn ysgrifenedig gan o leiaf ddau aelod arall o'r staff anacademaidd, a rhaid dangos bod y sawl a enwebir yn cytuno.
4. Os ceir dau enwebiad yn unig, ni fydd dirprwywr, a'r ddau hynny fydd yn aelodau o'r Senedd.
5. Os ceir mwy na dau enwebiad, cynhelir etholiad trwy bleidlais pob aelod o'r staff anacademaidd, pa beth bynnag hyd eu cytundeb neu wasanaeth. Defnyddir dull y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer yr etholiad.
6. Yr ymgeiswyr yn y lle cyntaf a'r ail fydd yn cael eu hethol yn gynrychiolwyr, a'r ymgeisydd sydd uchaf ar ôl y ddau ymgeisydd a etholwyd fydd y dirprwywr.
7. Lle y cynhelir y bleidlais yn bennaf drwy ddull electronig, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn gwneud darpariaeth i aelodau o'r staff anacademaidd ofyn am a derbyn papur pleidleisio.
8. Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn penodi dau archwilydd ar gyfer etholiad trwy bleidlais, a bydd o leiaf un ohonynt yn aelod o'r Staff Academaidd. Gwahoddir un cynrychiolydd o bob Undeb Llafur a gydnabyddir i fod yn arsylwyr wrth gyfri'r papurau pleidleisio a dilysu unrhyw bleidleisiau fydd yn cael eu bwrw'n electronig.
9. Fel arfer, fe gynhelir etholiadau fel y gellir cyflwyno'r canlyniad i'w gadarnhau yng nghyfarfod olaf y Senedd yn ystod y flwyddyn academaidd.

2. Telerau'r penodiadau

1. Tair blynedd fydd cyfnod yr aelodau a'r dirprwywr a etholir.
2. Bydd cyfnod pob aelod a etholir yn unol â'r uchod yn cychwyn ar yr 1 Medi canlynol.
3. Llenwir lle gwag dros-dro (sef, os bydd aelod yn ymddiswyddo o'r Senedd neu'n gadael ei swydd fel aelod o'r staff anacademaidd) am weddill cyfnod yr aelod sy'n peidio â bod yn aelod yn unol â'r weithdrefn a amlinellir uchod.

6. Datrys amheuaeth

Ac eithrio'r hyn y darparwyd ar ei gyfer yn y paragraffau uchod, penderfynir ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag aelodaeth etholaethau a chynnal etholiadau drwy benderfyniad y Senedd.